Home Office
Swyddfa Gartref

O Wella i Weddnewid

Cynllun Gweithredu i ddiwygio'r Swyddfa Gartref fel ei bod yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd ac yn cyflawni ei diben craidd o ddiogelu'r cyhoedd

Y Swyddfa Gartref
Gorffennaf 2006

Cynnwys

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Parhaol	2
Crynodeb gweithredol	3
Pennod 1: Amgylchiadau newydd – yr achos dros newid	4
Pennod 2: Diben newydd	6
Pennod 3: Arweinyddiaeth newydd – tîm newydd i'r Swyddfa Gartref ar y lefel uchaf	7
Pennod 4: Trefniadaeth newydd	8
Pennod 5: Rhaglen ddiwygio	11
Pennod 6: Ymagwedd a chynllun gweithredu	15
Atodiad: Crynodeb o gerrig milltir y Cynllun Gweithredu Diwygio	16

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Parhaol

Rydym yn nodi heddiw yn y ddogfen ddiwygio hon ein cynllun ar gyfer trawsnewid y Swyddfa Gartref. Rydym am weld newid sylfaenol. Rydym am weld Swyddfa Gartref sy'n perfformio ar lefel uchel wrth gyflawni ei diben craidd o ddiogelu'r cyhoedd.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi bod yn destun sylw mawr gan y cyhoedd, y senedd a'r wasg dros yr ychydig fisoedd diwethaf o ganlyniad i rai methiannau gweithredol difrifol. Mae hyn wedi golygu bod angen cyflawni newid pellgyrhaeddol ar fwy o frys. Ond mae'r Cynllun Gweithredu Diwygio hwn hefyd yn ymateb i ddadansoddiad ehangach o'r ffordd y mae'n rhaid i'r Swyddfa Gartref, er y gwelliant graddol, newid yn sylweddol nawr wrth gwrdd â'r her a wynebir yn sgîl y byd newidiol sydd ohoni, gan gynnwys ymfudo ar raddfa fawr, troseddau cyfundrefnol a therfysgaeth ryngwladol. Mae'r newidiadau hyn wedi'u dwysáu gan newidiadau sylfaenol yn ein cymdeithas ein hunain sydd wedi tanseilio parch tuag at awdurdod ond sydd, ar yr un pryd, wedi cynyddu disgwyliadau'r cyhoedd ynglŷn â'r blaenoriaethau sylfaenol y dylai'r wladwriaeth eu darparu.

Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar lawer iawn o ddadansoddi manwl o ran ein cryfderau a'n gwendidau. Mae'n ystyried casgliadau Arolwg Medrusrwydd y Swyddfa Gartref ac mae'r ddau ohonom yn ddiolchgar iawn am hynny. Mae'r cynllun wedi ystyried safbwyntiau a syniadau staff y Swyddfa Gartref a'i rhanddeiliaid yn eang. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r tîm bach a fu'n gweithio'n ddiwyd dros y chwe wythnos diwethaf i gasglu'r dadansoddiad ynghyd a llunio'r glasbrint hwn ar gyfer diwygio.

Mae ein cynllun yn uchelgeisiol. Rydym yn newid y tîm ar y lefel uchaf. Rydym yn egluro cyfrifoldebau yn cynnwys y cyfrifoldebau rhwng Gweinidogion a swyddogion. Rydym am weld symudiad mawr mewn adnoddau a chyfrifoldeb i wasanaethau rheng flaen. Rydym am weld diwygiadau sylweddol yn y meysydd hynny sydd wedi bod yn rhwystro'r Swyddfa Gartref gyhyd: y sgiliau cywir ar gyfer y swydd; y systemau a'r prosesau cywir; data dibynadwy a chywir; rheoli risg mewn perthynas â phob prosiect; ac adnoddau'n cael eu rheoli'n dynn ac yn canolbwyntio ar flaenoriaethau. Ni chaiff unrhyw un o'r rhain eu cyflawni'n hawdd nac yn gyflym. Mae heddiw yn ddechrau ar raglen ddiwygio hirdymor a fydd yn gofyn am gysondeb, ymrwymiad a dygnwch.

Mae'n bleser gennym arwain y Swyddfa Gartref ar yr adeg hon. Mae ei gwaith yn sylfaenol i gymdeithas ddiogel a gwâr. Rydym yn benderfynol o greu Swyddfa Gartref y gall y cyhoedd ymddiried ynddi ac sy'n gallu cwrdd â heriau'r 21ain ganrif.

John Reid



David Normington

Crynodeb gweithredol

Mae'r broses globaleiddio wedi achosi i bobl symud ar raddfa anhygoel ac wedi arwain at derfysgaeth ryngwladol a throseddau a gyflawnir ar draws ffiniau. Mae cysylltiadau gwannach â'r gymuned a'r teulu wedi arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae disgwyliadau'r cyhoedd o wasanaethau cyhoeddus wedi cynyddu ac maent yn parhau i gynyddu.

Yn wyneb yr heriau hyn, mae'r Swyddfa Gartref wedi cael rhai llwyddiannau nodedig ers 1997 – er enghraifft, lleihau troseddau 35 y cant, sicrhau bod mwy o bobl â cheisiadau am loches nad oes sail iddynt yn dychwelyd nag sy'n cyrraedd a dod â mwy o droseddau gerbron y llys. Ond mae graddfa'r her yn parhau i ennill y blaen ar allu'r Swyddfa Gartref i ymateb.

Mae'r Cynllun Gweithredu Diwygio hwn yn nodi cyfres uchelgeisiol o ddiwygiadau i fynd i'r afael â'r heriau hyn ac i drawsnewid y Swyddfa Gartref.

- **Byddwn yn sicrhau bod y Swyddfa Gartref yn canolbwyntio ar ei diben craidd o ddiogelu'r cyhoedd.**
- **Byddwn yn sefydlu tîm newydd ar y lefel uchaf, gyda Bwrdd y Swyddfa Gartref wedi'i ad-drefnu ac yn gwneud 15 o newidiadau ar unwaith ar lefel Cyfarwyddwr, sef dros chwarter ein Cyfarwyddwyr.**
- **Byddwn yn datblygu 'contract' newydd rhwng Gweinidogion a swyddogion, gan egluro eu priod rolau a'u disgwyliadau mewn perthynas â pholisïau, cyflawni gweithredol a rheolaeth.**
- **Byddwn yn ad-drefnu strwythur y Swyddfa Gartref mewn ffordd radical, gyda symudiad mawr o ran cyfrifoldeb ac adnoddau i'r rheng flaen.**
- **Byddwn yn sefydlu fframweithiau perfformiad clir ar gyfer gwasanaethau gweithredol y Swyddfa Gartref – y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd, y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Adnabod a Phasbortau – ac yn sicrhau bod penaethiaid y gwasanaethau hynny yn gyfrifol am berfformiad. Byddwn yn sefydlu'r Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd fel un o asiantaethau gweithredol y Swyddfa Gartref gydag asiantaeth gysgodol yn weithredol erbyn mis Ebrill 2007.**
- **Byddwn yn ceisio lleihau'r baich biwrocrataidd ar yr heddlu a phartneriaid eraill sy'n mynd i'r afael â throseddau ymhellach, drwy weithredu trefniadau perfformiad symlach ar gyfer plismona, troseddau a chyffuriau. Byddwn yn datganoli'r cyfrifoldeb dros gefnogi'r broses o foderneiddio a gwella'r heddlu i'r Asiantaeth Gwella Plismona Genedlaethol newydd a fydd yn weithredol erbyn mis Ebrill 2007.**
- **Heddiw, rydym yn lansio rhaglen ddiwygio radical sy'n cynnwys saith newid a gynlluniwyd i drawsnewid diwylliant, sgiliau, systemau, prosesau a data'r Swyddfa Gartref.**
- **Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu clir i gyflwyno'r diwygiadau hyn. Erbyn mis Medi, byddwn yn datblygu rhaglen weithredu lawn. Cynhelir archwiliad allanol o'r cynnydd a wnaed ym mis Rhagfyr a bob blwyddyn ar ôl hynny.**

Dylid darllen y cynllun cyffredinol hwn ar gyfer y Swyddfa Gartref ar y cyd â'n cynlluniau ar gyfer ail-gydbwyso'r system cyfiawnder troseddol o blaid y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith ac ar gyfer diwygio'r Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd.

Mae'n ddechrau rhaglen hirdymor ar gyfer trawsnewid y Swyddfa Gartref. Rydym yn ymrwymedig i gynnydd cynnar er mwyn dangos i'r cyhoedd ac i'n rhanddeiliaid a'n staff ein bod yn cymryd y mater o ddifrif. Ond bydd y newid sylfaenol yr ydym yn ceisio'i gyflawni yn galw am benderfyniad a dygnwch.

Pennod 1:

Amgylchiadau newydd - yr achos dros newid

1. Mae'r Swyddfa Gartref wedi bod yn gyfrifol am un o agendâu mwyaf heriol y Llywodraeth erioed, gyda chyfrifoldeb dros lawer o'r materion sy'n achosi'r pryder mwyaf i'r cyhoedd, gan gynnwys lleihau troseddau a rheoli troseddwyr, darparu plismona gweladwy ac atebol, rheoli mewnfudo a sicrhau bod strategaethau gwrthderfysgaeth effeithiol ar waith. Mae'r Swyddfa Gartref yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau anoddaf ac anhydrin mewn cymdeithas gan ymdrin yn bennaf â phobl beryglus ac anfodlon sy'n aml yn ceisio osgoi ei sylw. Mae'r un problemau yn wynebu llywodraethau gwledydd democrataidd eraill y byd uwch ddiwydiannol.

2. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, gwelwyd llawer o welliannau.

- Yn ôl Arolwg Troseddu Prydain, mae troseddu wedi gostwng 35 y cant ers 1997 gyda'r risg o ddioddef trosedd ar ei hisaf ers 1981.
- Mae'r nifer fwyaf erioed o swyddogion yr heddlu (dros 141,000) a 6,300 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ar y strydoedd.
- Gwasanaethau Diogelwch cryfach gyda £85 miliwn ychwanegol yn cael ei gyhoeddi yn yr adroddiad cyn y Gyllideb, a sefydlu swyddfeydd rhanbarthol.
- Cynnydd wrth fynd i'r afael â chyffuriau gyda 89 y cant yn fwy o bobl yn cael triniaeth o gymharu â 1998 a 299 o grwpiau masnachu cyffuriau yn cael eu chwalu yn 2004/05, o gymharu â 193 yn 2003.
- Camau gweithredu ar leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda thros 2,600 o Orchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) yn cael eu rhoi y llynedd, a'r nifer o achosion o hwliganiaeth pêl-droed yn gostwng yn sylweddol.
- Gwasanaeth Pasbort ar ei newydd wedd gyda 97 y cant o foddhad ymhlith cwsmeriaid.
- Nid oes unrhyw garcharor Categori A wedi dianc ers 1996.
- Mae'r gyfradd cymryd cyffuriau mewn carchardai wedi mwy na haneru ers 1997.
- Mae'r amser sy'n mynd heibio rhwng arestio troseddwyr ifanc cyson a'u dedfrydu wedi'i haneru.
- Mae'r Adran wedi cyflawni mwy na £1.5 biliwn o arbedion drwy wella effeithlonrwydd ers mis Mawrth 2006.
- Creu'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol ym mis Ebrill 2006.
- Mae'r Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o'i thargedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus, yn cynnwys:
  - sicrhau bod mwy o bobl â cheisiadau am loches nad oes sail iddynt yn dychwelyd nag yn cyrraedd o fis Chwefror 2006 ymlaen;
  - ar ôl gostwng am nifer o flynyddoedd, mae hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol yn dechrau cynyddu;
  - dod â mwy o droseddau gerbron y llys – mae targed Adolygiad o Wariant 2002 wedi'i gyflawni ac mae targed Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus Adolygiad o Wariant 2004 i ddod â 1.25 miliwn o droseddwyr gerbron y llys wedi'i gyflawni ddwy flynedd yn gynnar;
  - mae perfformiad yr heddlu wedi gwella, yn fwyaf nodedig wrth leihau troseddau, gyda 30 o'r 43 o heddluoedd wedi gwella ers 2002/03 ac mae'r gyfradd canfod troseddau wedi gwella o 19 y cant ym mis Hydref 2004 i 22.8 y cant ym mis Hydref 2005.

3. Fodd bynnag, mae graddfa'r her yr ydym yn ei hwynebu wedi cynyddu'n ddramatig hefyd, ac wedi ennill y blaen ar ein gallu i ymateb mewn rhai meysydd.

- **Yn rhyngwladol**, yn dilyn diwedd y Rhyfel Oer, mae'r broses globaleiddio wedi dod â buddiannau economaidd a chymdeithasol enfawr i lawer o wledydd. Fodd bynnag, mae'r broses honno hefyd wedi dod â risgiau a heriau newydd sylweddol. Er enghraifft, rydym yn gweld pobl yn symud ar draws cyfandiroedd ar raddfa y tu hwnt i'r dychymyg: rhwng 1960 a 2005, gwelwyd bod nifer yr ymfudwyr rhyngwladol yn y byd wedi mwy na dyblu i bron 191 miliwn – sy'n cyfateb â phoblogaeth Brasil. Ymhellach, mae twf terfysgaeth ryngwladol a chynnydd sydyn mewn troseddau cyfundrefnol a gyflawnir ar draws ffiniau yn gosod pwysau mawr ar ein hymdrechion i sicrhau diogelwch y cyhoedd.
- **Yn lleol**, gwelwyd cysylltiadau gwannach â'r gymuned a'r teulu ynghyd â pharch tuag at awdurdod, sydd wedi arwain at gynnydd yn yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a thwf yn y canfyddiad o droseddau. Mae hyn yn

chwarae rôl wrth danseilio cymunedau lleol ac yn cynyddu'r galwadau ar y rheini sy'n gyfrifol am gadw cymunedau yn ddiogel.

- **Yn gymdeithasol**, mae disgwyliadau pobl o wasanaethau cyhoeddus wedi cynyddu'n sylweddol, ac maent yn parhau i gynyddu. Mae'r cyhoedd yn iawn i ddisgwyl gwasanaethau ymatebol, gweladwy ac atebol o fewn fframwaith cenedlaethol effeithiol.

4. Mae'r achos dros newid yn bwysicach fyth yn sgîl y methiannau proffil uchel y rhoddwyd sylw iddynt yn ddiweddar. Mae'r rhain wedi niweidio enw da'r Swyddfa Gartref ac wedi ysgwyd hyder y cyhoedd yn ein gallu i gyflawni ein hamcanion craidd.

5. Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi nodi'n glir bod angen newid sylweddol mewn perfformiad i ymateb i'r heriau hyn. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Parhaol newydd a'r Bwrdd, nododd y meysydd lle mae'n disgwyl i berfformiad wella yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref ar 23 Mai, sef:

- perfformiad gwael;
- gwasanaethau gwan;
- tanfuddsoddiad mewn arweinyddiaeth a sgiliau;
- darnio a seilos;
- systemau a phrosesau annigonol.

6. Dros y chwe wythnos diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio'n ddiwyd gyda staff a rhanddeiliaid i gychwyn cyfres o newidiadau allweddol yn syth, ac rydym wedi datblygu cynllun diwygio i gyflawni newid sylweddol mewn perfformiad. Rydym wedi ystyried y gwaith dadansoddi cychwynnol a gyflawnwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Bwrdd newydd yn gynharach yn y flwyddyn, yn ogystal â chanfyddiadau'r Arolwg Medrusrwydd diweddar sydd hefyd yn cael eu cyhoeddi heddiw.

7. Y cynllun hwn yw'r cyntaf o dri adroddiad a gaiff eu cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref. Mae'n darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer sut y byddwn yn newid ar draws yr Adran gyfan. Byddwn yn cyhoeddi dwy ddogfen arall yn fuan: ail-gydbwyso'r system cyfiawnder troseddol ac adolygiad sylfaenol o'r Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd. Mae'r ddwy ddogfen hyn yn ddarnau cydrannol o broses ddiwygio gyffredinol y Swyddfa Gartref.

1.30pm, Dydd Gwener 7 Gorffennaf, Y Farwnes Scotland, y Gweinidog dros Gyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwyr, yn cyfarfod â rhanddeiliaid a staff yn ystod lansiad Gwasanaeth Triniaeth Cyffuriau ac Alcohol Brighton a Hove

Pennod 2:
Diben newydd

8. **Byddwn yn sicrhau bod diogelu'r cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn.** Mae hynny wedi bod yn rhan o'n gwaith erioed. Ond mae'r newidiadau o ran cyfrifoldebau'r Swyddfa Gartref yn ystod y blynyddoedd diwethaf – trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros hapchwarae, y gyfraith etholiadol, y Gwasanaeth Tân, masnachu ar ddydd Sul ac, yn fwyaf diweddar, ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedau – yn golygu mai diogelu'r cyhoedd yw ein diben craidd nawr. Ac er mwyn cyflawni'r diben hwn, byddwn yn canolbwyntio ar chwe blaenoriaeth allweddol a ddisgwylir gan y cyhoedd:

   - diogelu'r genedl rhag ymosodiadau terfysgol;
   - lleihau troseddau, yn enwedig troseddau treisgar a throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau;
   - galluogi pobl i deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi a'u cymunedau lleol, drwy wasanaeth plismona lleol mwy gweladwy, ymatebol ac atebol yn arbennig;
   - ail-gydbwyso'r system cyfiawnder troseddol o blaid y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith a'r dioddefwr;
   - rheoli troseddwyr, er mwyn diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu;
   - diogelu ein ffiniau, atal camddefnyddio ein cyfreithiau mewnfudo a rheoli ymfudo er mwyn rhoi hwb i'r DU.

9. Rydym wedi datblygu cynlluniau i gyflawni'r blaenoriaethau newydd hyn. Cyhoeddir y cynlluniau ar gyfer ail-gydbwyso'r system cyfiawnder troseddol a diwygio'r Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd yn fuan.

   - Bydd yr adolygiad o'r system cyfiawnder troseddol yn ystyried sut y gall y system gyfan – o blismona drwy'r llysoedd i garchardai a phrofiannaeth – gael ei hail-gydbwyso o blaid y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith. Byddwn yn nodi cerrig milltir a chynlluniau clir ar gyfer gweithredu ac yn dechrau cyfnod o ymgynghori a thrafodaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio a bod gan y cyhoedd hyder ynddi.
   - Bydd yr adolygiad sylfaenol o'r Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd yn nodi cynllun i sicrhau bod ein system fewnfudo yn ein galluogi i reoli pwy sy'n dod i mewn yn gywir, ac i sicrhau eu bod yn gadael pan na fydd ganddynt yr hawl i fod yma mwyach. Uwchlaw popeth, bydd yn atgyfnerthu'r system er mwyn sicrhau ei bod yn gwarchod diogelwch y wlad hon, yn rhwystro camddefnydd o'n cyfreithiau, yn deg i fudwyr cyfreithlon a'r cyhoedd ym Mhrydain, a'i bod yn system y mae gan y cyhoedd hyder ynddi. Un o'i gasgliadau yw y bydd y **Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd yn cael ei sefydlu fel asiantaeth weithredol gysgodol o fis Ebrill 2007**. Cyhoeddir manylion pellach am y newidiadau hyn yn y dyfodol agos.

3pm, Dydd Iau 6 Gorffennaf, Liam Byrne, y Gweinidog dros Genedligrwydd, Dinasyddiaeth a Mewnfudo, yn cyfarfod â staff y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd yng Nghanolfan Gofnodi Waterside Court yn Leeds

10. Y cynllun hwn yw'r rhaglen ddiwygio gyffredinol ar gyfer trawsnewid y Swyddfa Gartref. Ynddo, rydym yn ymrwymo i gyflawni newidiadau sylfaenol mewn tri maes.

   - **Byddwn yn creu tîm newydd ar y lefel uchaf** gyda gwell sgiliau arwain a chyflawni, a gaiff ei ategu gan berthynas waith well rhwng Gweinidogion a swyddogion (Pennod 3).
   - **Byddwn yn ad-drefnu trefniadaeth y Swyddfa Gartref** fel ei bod yn gallu rhagweld bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd yn well a darparu gwasanaethau a chyflawni gweithrediadau rheng flaen sy'n atebol ac yn perfformio i safon uchel (Pennod 4).
   - **Byddwn yn lansio rhaglen ddiwygio radical** i greu Swyddfa Gartref â phobl fedrus, gwerthoedd a rennir, systemau a phrosesau dibynadwy, a gwybodaeth a data cywir sy'n ymatebol i'w rhanddeiliaid a chymunedau lleol (Pennod 5).

Pennod 3:

Arweinyddiaeth newydd - tîm newydd i'r Swyddfa Gartref ar y lefel uchaf

11. Mae ein hasesiad wedi dangos bod angen gwelliant sylweddol yng nghapasiti a gallu uwch arweinwyr y Swyddfa Gartref.

12. **Rydym eisoes wedi ad-drefnu Bwrdd y Swyddfa Gartref yn gyfan gwbl** er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys cymysgedd cryf o sgiliau a chefndiroedd. Dros y chwe mis diwethaf, mae'r broses hon wedi cynnwys penodi Prif Weithredwyr newydd i'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol a'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol, a phenodi Cyfarwyddwr Cyffredinol Perfformio a Diwygio newydd. Byddwn yn penodi Prif Weithredwr newydd ar gyfer y Gwasanaeth Adnabod a Phasbortau yn fuan. Mae gan y Bwrdd newydd brofiad o lywodraeth leol, y trydydd sector, y sector preifat a'r Gwasanaeth Sifil; a chymysgedd o sgiliau proffesiynol, polisi, gweithredol a rheoli. Rydym hefyd yn ymestyn rôl cyfarwyddwyr anweithredol y Swyddfa Gartref er mwyn rhoi mwy o her allanol a mewnwelediad ffres. Bydd y Bwrdd, y mae'r rhan fwyaf o'i aelodau wedi ymgymryd â'u swyddi o fewn y flwyddyn ddiwethaf, yn ymgymryd â rhaglen o ddatblygiad dwys gyda'r nod o greu tîm arwain sy'n perfformio i safon uchel.

13. **Rydym yn gwneud 15 o newidiadau pellach ar unwaith ar lefel Cyfarwyddwr** (dros chwarter o'r cyfanswm), er mwyn atgyfnerthu arweinyddiaeth yn y meysydd pwysicaf. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am ein strategaeth i leihau troseddau a mynd i'r afael â chyffuriau; Cyfarwyddwr yn y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd sy'n canolbwyntio ar waith gorfodi; ad-drefnu tîm lefel uchaf y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol; Prif Swyddog Gwybodaeth newydd ar gyfer y Gwasanaeth Adnabod a Phasbortau i arwain y Rhaglen Gwasanaethau Adnabod newydd; a Chyfarwyddwr i fod yn gyfrifol am ddatblygu arweinwyr a gwella sgiliau ar draws y Swyddfa Gartref.

14. **Byddwn yn cwblhau asesiad sgiliau ar gyfer pob un o Gyfarwyddwyr y Swyddfa Gartref** erbyn diwedd mis Medi, ac ar gyfer y 250 o weision sifil lefel uwch eraill yn y Swyddfa Gartref erbyn mis Ebrill 2007. Caiff y broses hon ei hategu gan raglen ddatblygu ddwys i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau allweddol fel cyflawni gweithredol, a rheoli rhaglenni a phrosiectau. Drwy gydol y cyfnod hwn, byddwn yn parhau i wneud newidiadau o ran personél a chyflwyno sgiliau ar lefel uwch i lenwi'r bylchau a nodir.

15. **Byddwn yn rhoi system newydd i nodi a rheoli talent ar waith** erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd y system hon yn ein galluogi i ddatblygu sgiliau staff dawnus islaw'r haen rheoli uchaf. Byddwn hefyd yn cyflwyno system cynllunio olyniaeth newydd ar gyfer swyddi uwch, ac yn parhau â'n rhaglen hil ac amrywiaeth pum mlynedd bresennol i gefnogi arweinwyr newydd o grwpiau a dangynrychiolir ar hyn o bryd.

16. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau y gallwn gynnal tîm arwain cryf yn y dyfodol a fydd mewn sefyllfa dda i lunio ac arwain y broses o drawsnewid y Swyddfa Gartref.

Pennod 4:

Trefniadaeth newydd

17. **Byddwn yn ad-drefnu strwythur a threfniadaeth y Swyddfa Gartref yn radical, gan leihau maint y pencadlys a datganoli mwy o gyfrifoldebau ac adnoddau i weithrediadau a gwasanaethau rheng flaen.** Ein nod yw sicrhau gwasanaethau rheng flaen mwy atebol sy'n perfformio'n well, gweithio yn ôl blaenoriaethau clir a thargedau perfformiad a bennir gan swyddogaeth polisi strategol llai o faint, ond mwy dylanwadol.

18. Mae strwythur presennol y Swyddfa Gartref weithiau wedi arwain at ddryswch o ran pwy sy'n gwneud beth. Bu tuedd, dros amser, i dynnu penderfyniadau gweithredol a gwaith achos unigol tuag at ganol y Swyddfa Gartref a thuag at Weinidogion. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'r hyn y gallai'r unedau gweithredol benderfynu arno ac nid yw wedi annog arloesedd. Yn rhy aml, mae polisïau a gweithrediadau ar draws y meysydd mewnfudo, troseddau, gwrthderfysgaeth a rheoli troseddwyr wedi'u darnio. Mae angen i hyn newid.

19. **Byddwn yn datblygu 'contract' newydd rhwng Gweinidogion a swyddogion, gan egluro eu priod rolau a'u disgwyliadau mewn perthynas â pholisïau, cyflawni gweithredol a rheoli.** Bydd disgwyl i benaethiaid asiantaethau chwarae rôl fwy cyhoeddus drwy gynrychioli eu hasiantaethau a rhoi cyfrif am berfformiad a materion gweithredol. Er mwyn rhoi mwy o amser i Weinidogion ganolbwyntio ar faterion strategol a materion polisi yn yr Adran, byddwn yn ceisio gwrthdroi'r duedd sydd wedi arwain, dros amser, at sefyllfa lle maent wedi bod yn gysylltiedig â phenderfyniadau ar amrywiaeth eang o achosion unigol sy'n ymwneud â chyfrifoldeb y Swyddfa Gartref – penderfyniadau'n ymwneud â mewnfudo a rheoli troseddwyr yn bennaf.

20. **Byddwn yn sefydlu swyddogaeth polisi strategol sy'n fwy integredig a chydgysylltiedig wrth wraidd y Swyddfa Gartref.** Bydd y swyddogaeth hon yn llai na'r hyn ydyw nawr, ond bydd yn fwy dylanwadol: yn cefnogi Gweinidogion wrth iddynt bennu'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau strategol cyffredinol, wrth ddyrannu adnoddau, wrth gydgysylltu polisïau ar draws y Swyddfa Gartref a chydag adrannau eraill y llywodraeth ac wrth wneud gwasanaethau

2pm, Dydd Mercher 5 Gorffennaf, Gerry Sutcliffe, yr Is-ysgrifennydd dros Gyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwyr, yn cyfarfod â staff y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol yn Sheffield

gweithredol yn atebol am eu perfformiad. Byddwn yn trafod union ffurf a strwythur y swyddogaeth polisi strategol hon dros yr ychydig fisoedd nesaf, gan gynnwys staff a rhanddeiliaid – gyda phenderfyniadau yn cael eu gwneud ar ddiwedd y flwyddyn a'r broses weithredu yn cychwyn o fis Ebrill 2007. Ein nod fydd adeiladu ar swyddogaethau polisi cyfredol y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd, y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol a'r Grŵp Lleihau Troseddau a Diogelwch Cymunedol; a sicrhau bod polisïau yn parhau i gael eu llywio gan waith dadansoddi ac ymchwil a chan arfer gorau ac arloesedd rheng flaen, a bod eu heffaith yn cael ei hasesu'n llawn.

21. **Byddwn yn sefydlu fframweithiau perfformiad clir ar gyfer gwasanaethau gweithredol y Swyddfa Gartref – y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd, y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Adnabod a Phasbortau – ac yn sicrhau bod penaethiaid y gwasanaethau hynny yn gyfrifol am berfformiad. Byddwn yn datganoli mwy o'r cyfrifoldeb dros benderfyniadau gweithredol a gwaith achos i'r gwasanaethau hynny, a disgwyliwn i bob gwasanaeth ei hun ddatganoli mwy o'r cyfrifoldeb i'w rhengoedd blaen.** Nodwn isod beth fydd hyn yn ei olygu i bob maes gweithrediadau.

22. **Byddwn yn sefydlu'r Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd fel un o asiantaethau gweithredol y Swyddfa Gartref** gydag asiantaeth gysgodol yn weithredol erbyn mis Ebrill 2007. Wrth sefydlu'r asiantaeth, byddwn yn sefydlu trefniadau atebolrwydd cryfach, pennu targedau heriol o ran perfformiad a chyflawniad, a rhoi mwy o ryddid gweithredol i'w Phrif Weithredwr a'i Bwrdd er mwyn gwella gwasanaethau ac arloesi wrth i berfformiad wella.

23. **Byddwn yn sefydlu fframwaith perfformio tebyg ar gyfer y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i ddiogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu.** Byddwn yn sicrhau bod ei bencadlys yn canolbwyntio ar y gwaith o gomisiynu gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer rheoli troseddwyr ac yn ysgogi perfformiad gwell gan y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu system arolygu a pherfformiad fwy effeithiol, ymyrryd mewn ffordd bendant pan fo perfformiad yn wan ac agor mwy o wasanaethau i gystadleuaeth gan y sectorau gwirfoddol a phreifat. Byddwn yn datganoli cyfrifoldeb pencadlys y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol dros waith achos a phenderfyniadau gweithredol yn agosach at y rheng flaen. O ganlyniad, **bydd pencadlys y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol yn mynd yn gynyddol llai, gan haneru erbyn 2010.**

24. **Sefydlwyd y Gwasanaeth Adnabod a Phasbortau fel asiantaeth weithredol ym mis Ebrill 2006, gan adeiladu ar lwyddiant yr Asiantaeth Pasbort.** Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau unwaith eto ei hymrwymiad i gyflwyno cardiau adnabod cyn gynted â phosibl. Bydd yr asiantaeth newydd yn pennu targedau heriol ar gyfer cyflawni hyn a gwireddu buddiannau cardiau adnabod ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae rhaglen newydd, o dan arweiniad yr asiantaeth, wedi'i sefydlu gan y Swyddfa Gartref. Bydd yn sicrhau bod y rhaglen e-Borders yn cael ei hintegreiddio a'i chyflwyno fesul cam yn effeithiol, cyflwyno biometreg ar fisâu a phasbortau, trwyddedau preswylwyr ar gyfer tramorwyr, a chyflwyno cardiau adnabod ar gyfer dinasyddion y DU.

25. Mae pob un o'r uchod yn wasanaethau a reolir yn uniongyrchol gan y Swyddfa Gartref. Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r gwaith a wneir gennym mewn perthynas â throseddau, cyffuriau a gwrthderfysgaeth yn dibynnu ar effeithiolrwydd cydberthnasau hyd braich gydag amrywiaeth o bartneriaid cenedlaethol a lleol ac, yn anad dim, gyda'r Heddlu. Er bod y cydberthnasau hyn o angenrheidrwydd yn gydberthnasau hyd braich, credwn y dylai'r un egwyddorion – eglurder cydberthnasau, fframweithiau perfformiad syml, a datganoli mwy o gyfrifoldebau i wasanaethau rheng flaen – fod yn gymwys.

26. **Byddwn felly yn ceisio lleihau'r baich biwrocrataidd ar yr heddlu a phartneriaid eraill sy'n mynd i'r afael â throseddau ymhellach, drwy weithredu trefniadau perfformiad symlach ar gyfer plismona, troseddau a chyffuriau. Byddwn yn datganoli'r cyfrifoldeb dros gefnogi'r broses o foderneiddio a gwella'r heddlu i'r Asiantaeth Gwella Plismona Genedlaethol newydd a fydd yn weithredol erbyn mis Ebrill 2007.** Byddwn hefyd yn cefnogi'r broses o ddatblygu Cytundebau Ardal Leol er mwyn cynyddu hyblygrwydd lleol wrth leihau troseddau a gwella diogelwch cymunedol.

27. Byddwn yn lansio adolygiad trylwyr, a fydd yn adrodd yn ôl ym mis Ebrill 2007, i archwilio fframweithiau perfformiad cyrff cyhoeddus anadrannol y Swyddfa Gartref ac i ystyried pa un a ellir rhesymoli mewn rhai meysydd.

28. Bydd gan Fwrdd y Swyddfa Gartref ar ei newydd wedd rôl ganolog i'w chwarae o ran sicrhau bod pob rhan o'r Swyddfa Gartref yn gweithio o fewn fframwaith cyffredin ar gyfer polisïau a gweithrediadau. Bydd yn casglu ynghyd Brif Weithredwyr y prif wasanaethau ac asiantaethau gweithredol a phenaethiaid y swyddogaeth polisi strategol a gwasanaethau corfforaethol, i bennu'r strategaeth gyffredinol ac adolygu perfformiad. **Bydd Uned Diwygio a Chyflawni newydd, wedi'i llunio o swyddogaethau cyfredol, yn helpu'r Bwrdd i reoli perfformiad a rhoi sicrwydd iddo'i hun bod gwasanaethau yn cydweithio lle y bo angen iddynt wneud hynny.**

29. Byddwn yn cadw'r capasiti yn y canol i bennu strategaethau ar draws y Swyddfa Gartref ar gyfer gweithgareddau corfforaethol allweddol fel TG, datblygu arweinyddiaeth a sgiliau arweinyddiaeth, a rheoli adnoddau. Ond, fel arall, **byddwn yn ceisio datblygu, y tu allan i ganol y Swyddfa Gartref, wasanaethau cymorth a thrafodaethol mwy effeithlon, â ffocws ar fusnes, gan gynnwys adnoddau dynol, cyllid ac ystadau, a fydd yn gyfrifol am gyflawni gofynion y meysydd gweithredol.** Rydym yn ymrwymedig i arbed dros 600 o swyddi mewn gwasanaethau corfforaethol erbyn 2010.

30. **Byddwn yn cyflawni ein hymrwymiad i leihau cyfanswm maint pencadlys strategol a gweithredol y Swyddfa Gartref 30 y cant erbyn 2008. Gallwn hefyd wneud ymrwymiad nawr i gyflawni lleihad pellach o 10 y cant erbyn 2010.** Effaith gronnus y newidiadau hyn fydd lleihau maint pencadlys y Swyddfa Gartref a'i hasiantaethau o 9,200 yn 2004 i 6,500 yn 2008, a 5,900 erbyn 2010.

31. **Byddwn yn arbed £115 miliwn y flwyddyn o ran costau pencadlys erbyn 2010 o ganlyniad i'r gostyngiadau hyn, gan fuddsoddi'r arbedion er mwyn gwella gwasanaethau rheng flaen.** Mae'r broses o ailddyrannu adnoddau wedi dechrau eisoes, er enghraifft, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae nifer y staff mewnfudo a staff carchar rheng flaen wedi cynyddu dros 1,000.

11am, Dydd Iau 13 Gorffennaf, Tony McNulty, y Gweinidog Gwladol dros Blismona, Diogelwch a Diogelwch Cymunedol, yn cyfarfod â swyddogion heddlu Gwent ar Ystad Lliswerry, gyda Nick Ainger, Is-ysgrifennydd Seneddol, Swyddfa Cymru

Pennod 5:

Rhaglen ddiwygio

32. Heddiw, rydym hefyd yn lansio rhaglen ddiwygio bellgyrhaeddol sy'n cynnwys saith newid mawr a gynlluniwyd i drawsnewid diwylliant, sgiliau, systemau a phrosesau'r Swyddfa Gartref. Mae gweithgareddau eisoes ar waith ym mhob un o'r meysydd hyn, ac atodir siart cerrig milltir lefel uchel fel Atodiad i'r Cynllun Gweithredu hwn.

33. Byddwn yn meincnodi ein perfformiad yn erbyn arfer gorau yn y sector cyhoeddus a'r sector busnes. Bydd ein cynnydd wrth weithredu'r rhaglen ddiwygio hon yn destun archwiliad allanol blynyddol i fesur y cynnydd ac adrodd arno.

(1) Nodi a rheoli risg yn systematig
Byddwn yn ennyn dealltwriaeth gryfach o'r risgiau sy'n ein hwynebu ar bob lefel ac yn mabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol a dwys tuag at reoli'r risgiau hynny. Bydd y gwaith hwn yn hanfodol i'n llwyddiant o ran cyflawni ein blaenoriaethau, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd.

34. Prin na allai'r broses o reoli risg fod yn bwysicach yn y Swyddfa Gartref, o ran diogelu'r cyhoedd ac wrth reoli ein prif raglenni. Byddwn yn creu dealltwriaeth fwy trwyadl o'r risgiau sy'n ein hwynebu ar bob lefel o'n busnes fel y gallwn gymryd camau mwy amserol ac arloesol i'w lleddfu. Byddwn yn ymgorffori diwylliant rheoli risgiau dwys sy'n ategu'r broses cymryd risg wybodus a weithredir gan reolwyr, yn gwella'r broses o reoli risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni buddsoddi mawr ac yn annog y rheng flaen i nodi risgiau yn fwy rheolaidd a hysbysu'r rheini ar lefel uwch amdanynt.

35. Mae'r Bwrdd eisoes wedi nodi'r risgiau mwyaf critigol sy'n wynebu'r sefydliad ac wedi neilltuo pob un ohonynt i aelod unigol, atebol o'r Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn rheoli'r risgiau hyn yn wythnosol. Rydym hefyd wedi gofyn i reolwyr rheng flaen nodi ac asesu'r holl risgiau a allai fygwth diogelwch y cyhoedd, ac adolygu'r camau gweithredu a gymerir ganddynt i'w rheoli yn wythnosol, gan hysbysu'r rheini ar lefel uchel o'r risgiau hynny y mae angen iddynt hwy eu rheoli.

(2) Blaenoriaethu a rheoli adnoddau
Byddwn yn atgyfnerthu ein hymagwedd tuag at ddyrannu a rheoli ein hadnoddau ariannol a'n pobl er mwyn sicrhau bod ffocws ar gyflawni ein blaenoriaethau o ran diogelu'r cyhoedd.

36. Mae gan y Swyddfa Gartref amrywiaeth eang o flaenoriaethau allweddol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni arbenigo mewn nodi blaenoriaethau allweddol, gan sicrhau bod ein hadnoddau yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn a'u bod yn cyflawni gwerth am arian. Byddwn yn atgyfnerthu ein proses dyrannu adnoddau i dargedu ein hadnoddau ariannol tuag at ein blaenoriaethau o ran diogelu'r cyhoedd. Byddwn yn cyflawni arbedion arian parod o 3 y cant o leiaf bob blwyddyn, gan adeiladu ar yr arbedion effeithlonrwydd o £1.5 biliwn dros y tair blynedd diwethaf. Byddwn hefyd yn cyflwyno rheolaethau ariannol llym, a 'phorth' anoddach fel bod polisïau newydd yn fforddiadwy.

37. Byddwn yn datblygu model defnyddio adnoddau mwy hyblyg ar gyfer ein pobl er mwyn sicrhau eu bod bob amser yn gweithio ar ein hamcanion pwysicaf ac er mwyn ein galluogi i symud pobl i weithio ar flaenoriaethau allweddol yn well. Er enghraifft, o fewn y swyddogaethau polisi strategol newydd eu creu, bydd llawer mwy o waith yn seiliedig ar brosiectau, gyda thimau yn cael eu creu am gyfnodau penodol o amser er mwyn cyflawni polisi a nodwyd yn glir. Bydd pob maes gweithredu yn cyflwyno cynllun gweithlu blynyddol fel rhan o'u proses o ddyrannu adnoddau.

(3) Datblygu'r bobl yn y Swyddfa Gartref
Byddwn yn datblygu sgiliau ein pobl ac yn cynyddu ein perfformiad drwy wobrwyo llwyddiant, sicrhau canlyniadau go iawn ar gyfer perfformiad gwael, a defnyddio ein gwerthoedd i newid ymddygiad.

38. Mae gan y Swyddfa Gartref lawer o staff ymrwymedig sy'n pryderu'n fawr ynglŷn â'r hyn y maent yn ei wneud; fodd bynnag, wrth i natur ein gwaith fynd yn fwyfwy heriol, mae angen i'n staff gael hyfforddiant mewn sgiliau proffesiynol a disgwyliadau cliriach o ran perfformiad. Rydym am weld ein staff yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn gweithio i'r Swyddfa Gartref.

39. Byddwn yn ymestyn ein rhaglen datblygu rheolwyr a'r cyfleoedd sydd ar gael i ennill cymwysterau achrededig. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi dyblu nifer y cyfrifyddion cymwys yn ein tîm Cyfrifon. Byddwn hefyd yn sefydlu Academi rithwir y Swyddfa Gartref ac yn adeiladu ar ein pecynnau e-ddysgu er mwyn gwella sgiliau staff ym meysydd polisi, cyflawni gweithredol a gwasanaethau corfforaethol.

40. Byddwn yn cynnal archwiliad sgiliau yn y meysydd hynny y nodwyd bod angen iddynt gael eu datblygu ymhellach gan yr Adolygiad Medrusrwydd, yn cynnwys TG, rheoli prosiectau, cyllid ac adnoddau dynol, a byddwn yn cymryd camau i lenwi unrhyw fylchau. Byddwn yn llenwi swyddi gwag yn gyflymach gyda'r bobl gywir drwy ddiwygio ein systemau recriwtio, dewis a dyrchafu a'u symleiddio.

41. O fis Ebrill 2007, byddwn yn gwneud defnydd mwy effeithiol o fonysau perfformiad ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil er mwyn cymell perfformiad o safon uchel ac yn mabwysiadu ymagwedd lymach tuag at reoli perfformiad gwael ar gyfer staff ar bob gradd. Ar yr un pryd, byddwn yn datblygu fframwaith gwobrwyo cydlynol ar draws yr Adran. Erbyn mis Medi 2006, byddwn yn cytuno ar dargedau newydd ar gyfer rheoli presenoldeb gyda pholisïau mwy cadarn i leihau absenoldeb oherwydd salwch o ddeg diwrnod y person ar gyfartaledd yn 2004, i saith diwrnod erbyn 2008 a chwe diwrnod erbyn 2010, a byddwn yn cynorthwyo rheolwyr i gyflawni hyn.

42. Rydym am greu Swyddfa Gartref broffesiynol iawn lle mae gan ein pobl angerdd a balchder ym mhwysigrwydd ein gwaith. Byddwn yn cyflawni hyn drwy greu un Swyddfa Gartref sy'n adlewyrchu ei gwerthoedd:

- Rydym yn cyflawni ar gyfer y cyhoedd.
- Rydym yn broffesiynol ac yn arloesol.
- Rydym yn agored ac yn gydweithrediadol.
- Rydym yn trin pawb â pharch.

43. Byddwn yn defnyddio'r gwerthoedd hyn i herio ymddygiad annerbyniol, ac i newid diwylliant yr Adran.

(4) Gwybodaeth gywir
Byddwn yn newid y ffordd rydym yn casglu, yn dadansoddi, yn rhannu ac yn defnyddio gwybodaeth rheoli yn llwyr wrth ddatblygu polisïau, cyflwyno gwasanaethau rheng flaen a chyfathrebu.

44. Byddwn yn dysgu gwersi yn sgîl methiannau proffil uchel diweddar. Amlygodd y mater yn ymwneud â charcharorion sy'n dramorwyr bwysigrwydd data cywir er mwyn sbarduno'r broses o gyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd a gwneud penderfyniadau rheolaethol. Yn ddiweddar, bu'n rhaid i'r Swyddfa Gartref gywiro ystadegau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth ar lefel y troseddau sy'n gysylltiedig â hil oherwydd ein methiant i ddefnyddio'r data mwyaf diweddar a roddwyd i ni gan nifer o heddluoedd.

45. Rydym yn lansio rhaglen i wella ein gwybodaeth rheoli. Bydd y rhaglen hon yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar nodi'r data pwysicaf ar gyfer cyflwyno gwasanaethau rheng flaen, a'r camau sydd eu hangen i wella ansawdd y gwasanaethau hynny. Bydd y rhaglen hefyd yn cynnwys cynllun sicrhau ansawdd newydd, gyda chyfrifoldebau personol clir ar gyfer ansawdd data.

46. Byddwn yn symleiddio'r ystadegau a gyhoeddir gennym ac yn ffocysu ein hadnoddau ymchwil a dadansoddol ar gynhyrchu gwybodaeth amserol a chywir ar gyfer ein timau polisi a'n gweithrediadau. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr adnoddau hyn wedi'u hymgorffori'n gywir yn y meysydd a wasanaethir ganddynt.

(5) Systemau a phrosesau dibynadwy
Byddwn yn adeiladu prosesau dibynadwy ac effeithlon ym mhob un o'n meysydd gweithredu, drwy weithredu rhaglen ar draws yr Adran, a byddwn yn atgyfnerthu ein systemau drwy strategaeth TG a arweinir gan ein Prif Swyddog Gwybodaeth newydd.

47. Mae gennym lawer o brosesau a systemau sy'n hanfodol er mwyn diogelu'r cyhoedd ac mae angen iddynt fod yn ddibynadwy ac yn effeithlon. Rydym wedi cynnal rhaglen beilot lwyddiannus i wella ein prosesau ar draws meysydd mewnfudo, plismona, carchardai a datblygu polisi. Mae amcangyfrifon cynnar yn awgrymu bod potensial i wella cynhyrchiant 15 y cant mewn rhai meysydd a chymaint â 50 y cant mewn meysydd eraill, yn ogystal â chyfleoedd sylweddol i wella ansawdd a symleiddio ein gweithrediadau. Er enghraifft, mae swyddogion a staff yr heddlu o Ardal Ddeheuol Heddlu Suffolk wedi bod yn gweithio ar brosiect chwe mis i droi eu syniadau ar gyfer gwella yn realiti ar lawr gwlad. Gyda chefnogaeth y Swyddfa Gartref, maent wedi bod yn dadansoddi prosesau sylfaenol ac yn datblygu ffyrdd o weithio'n fwy effeithiol ac mewn ffordd symlach. Ymhlith y llwyddiant cynnar mae'r ffordd y mae anfonwyr a swyddogion yn ymateb i alwadau gan y cyhoedd. Mae'r Adran Ddeheuol wedi lleihau nifer y digwyddiadau bob dydd nad ydynt wedi eu cyflawni fwy na 65 y cant a chynyddodd boddhad dioddefwyr gyda'r heddlu 10 y cant yn ystod y mis cyntaf y gweithredwyd y prosesau newydd.

48. Bydd Uned Diwygio a Chyflawni newydd y Swyddfa Gartref yn cynnal adolygiadau o brosesau trawsbynciol pwysig o ddechrau'r broses i'r diwedd. Bydd un Cyfarwyddwr yn gyfrifol am berfformiad pob un, a bydd y fframwaith perfformiad newydd yn cynnwys gofynion penodol i reoli prosesau a rhaglenni trawsbynciol yn effeithiol.

49. Rydym wedi creu rôl newydd sef Prif Swyddog Gwybodaeth a fydd yn arwain y gwaith o gydlynu systemau gwybodaeth a TG ar draws y Swyddfa Gartref. Bydd y Swyddog yn datblygu strategaeth TG ar draws y Swyddfa Gartref erbyn mis Rhagfyr 2006. Byddwn hefyd yn sefydlu fforwm er mwyn sicrhau bod prosesau a systemau yn diwallu anghenion y rheng flaen. Byddwn yn sicrhau bod gan bob busnes gweithredol Gyfarwyddwr TG o safon uchel erbyn diwedd 2006.

(6) Rhaglenni a phrosiectau effeithiol
Byddwn yn cymryd camau i atgyfnerthu'r broses o gyflwyno ein prif raglenni cyfredol ac yn cyflwyno ymagwedd newydd tuag at ddatblygu a chyflwyno rhaglenni yn y dyfodol, gan gynnwys TG.

50. Mae cyfran gynyddol o'n gwaith yn dibynnu ar gyflwyno prosiectau a rhaglenni mawr yn llwyddiannus. Rydym wedi lansio proses cyfrif stoc cyflym o'n rhaglenni pwysicaf, gan gynnwys y rheini â chydrannau TG sylweddol, a gaiff ei chwblhau erbyn diwedd mis Medi 2006. Bydd hyn yn adeiladu ar yr Adolygiadau Porth diweddar ac yn nodi camau gweithredu ar gyfer atgyfnerthu'r broses gyflwyno.

51. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r ffordd y caiff rhaglenni a phrosiectau eu harwain, eu diffinio a'u cynllunio a'r ffordd y defnyddir adnoddau mewn perthynas â hwy. Er enghraifft, byddwn yn rheoli costau prosiectau yn well, gan ddefnyddio siecbwyntiau rheolaidd er mwyn sicrhau bod prosiectau yn parhau i fod ar y trywydd cywir ac o fewn y gyllideb, ac yn gweithredu ymagwedd lymach er mwyn atal prosiectau sy'n methu. Byddwn hefyd yn adeiladu ar yr ymagwedd a ddatblygwyd gan TG cyfiawnder troseddol tuag at asesu a gwella rhaglenni TG – bydd y Gwasanaeth Adnabod a Phasbortau yn cwblhau rhaglen beilot erbyn mis Medi 2006 a byddwn yn ymestyn y rhaglen ar draws yr Adran erbyn diwedd y flwyddyn.

(7) Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau

Byddwn yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a chymunedau lleol ac yn gweithio gyda hwy mewn ffyrdd newydd er mwyn rhoi ystyriaeth ddyledus i'w safbwyntiau.

52. Mae angen cymorth amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid arnom er mwyn cyflawni ein hamcanion. Rydym yn datblygu ymagwedd newydd tuag at ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a chymunedau lleol. Byddwn yn parhau i wneud ein polisïau a'n gwasanaethau yn fwy ymatebol i'r cyhoedd, er enghraifft drwy blismona cymdogaeth, y galw gan y gymuned i weithredu a'r agenda Parch. Byddwn yn gwneud newidiadau pwysig i'r ffordd yr ydym yn gweithio ar hyn o bryd. Er enghraifft, bydd staff yn treulio mwy o amser gyda'r rheng flaen a chymunedau lleol, a bydd rhanddeiliaid yn gallu rhoi adborth yn gynharach o lawer yn y broses llunio polisi.

11.30pm, Dydd Gwener 23 Mehefin, yr Ysgrifennydd Cartref yn trafod plismona rheng flaen yn ardal Soho yn Llundain gyda swyddogion yr Heddlu Metropolitanaidd.

53. Mae ein cyfranddeiliaid wedi sôn wrthym nad ydym yn ddigon cydgysylltiedig ar lefel leol. Byddwn yn datblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth newydd gyda Swyddfeydd rhanbarthol y Llywodraeth i gydlynu ein gwaith ar lefel leol yn well. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r fframwaith Cytundeb Ardal Leol i gydgysylltu ein ffrydiau ariannu a byddwn yn symleiddio systemau rheoli perfformiad ar gyfer y rheng flaen. Byddwn yn canolbwyntio mwy ar bartneriaethau rhanbarthol yn y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd ac yn defnyddio Rheolwyr Troseddwyr Rhanbarthol er mwyn galluogi ein gweithrediadau i fod yn agosach at gymunedau lleol ac i helpu i gysylltu â Swyddfeydd y Llywodraeth.

54. Bydd yr ymagwedd newydd hon yn cael ei hategu gan dîm penodedig wrth wraidd y gwaith strategol. Bydd hyn yn sicrhau bod gofynion sy'n gwrthdaro yn cael eu datrys o fewn y Swyddfa Gartref, a bydd yn darparu dull ffurfiol o gydgysylltu ein gwaith gydag ardaloedd lleol, gan osgoi'r achosion o ddyblygu a gorgyffwrdd sy'n bodoli.

55. Ar lefel genedlaethol, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag adrannau eraill ar faterion trawsbynciol fel atal troseddau, cyffuriau, alcohol, rheoli troseddwyr, mewnfudo, gwrthderfysgaeth ac atal eithafiaeth. Byddwn yn parhau i weithredu partneriaethau fel y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (y mae ei Phrif Weithredwr yn eistedd ar Fwrdd y Swyddfa Gartref) sy'n adrodd ar y cyd i'r Swyddfa Gartref, yr Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Twrnai Cyffredinol. Ar lefel ryngwladol, byddwn yn adeiladu ar ein Llywyddiaethau llwyddiannus o'r UE a'r G8 y llynedd, drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid yn yr UE a phartneriaid rhyngwladol eraill i gyflawni amcanion y Swyddfa Gartref.

Pennod 6:

Ymagwedd a chynllun gweithredu

56. Mae hon yn agenda ddiwygio uchelgeisiol. Mae'n cynnwys eglurder newydd o ran diben, gweledigaeth newydd ar gyfer trefniadaeth y Swyddfa Gartref a chynllun clir i gyflawni newid sylweddol o ran perfformiad.

57. Dyma'r amser cywir ar gyfer newid gweddnewidiol:

- Mae'r Ysgrifennydd Cartref newydd a'i dîm gweinidogol wedi nodi'r angen am newid radical yn glir.
- Mae'r Ysgrifennydd Parhaol newydd a'r Bwrdd yn gwbl gefnogol i'r agenda hon ac yn benderfynol o arwain rhaglen o ddiwygiadau sylfaenol.
- Mae ein staff yn deall yr angen am newid ac maent am weld arweinyddiaeth weladwy, gyson.
- Mae'r amgylchiadau newydd yn galw am ymagwedd newydd.
- Mae'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid yn disgwyl gwelliant go iawn.

58. Bydd y gwaith o weithredu'r diwygiadau hyn yn heriol iawn. Nid oes a wnelo hyn â strwythurau newydd yn unig. Mae'n ymwneud â meithrin galluoedd newydd, diffinio ffyrdd newydd o weithio a newid ymddygiad ar draws yr Adran. Rydym yn benderfynol o gyflawni gwelliannau cynnar, ond rhaglen ddiwygio hirdymor yw hon a bydd angen i ni gynnal ein hymrwymiad a'n momentwm dros sawl blwyddyn. Deallwn hefyd y cawn ein dwyn i gyfrif am gyflawni hyn gan y cyhoedd a'n rhanddeiliaid, a fydd am weld newid gweladwy cyn gynted â phosibl.

59. Ystyriwyd yr heriau hyn wrth gynllunio ein hymagwedd tuag at weithredu.

- Arweinir y newid o'r lefel uchaf bosibl gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion, yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Bwrdd.
- Caiff pob elfen allweddol o'r rhaglen ei harwain gan aelod o'r Bwrdd.
- Fe'i gweithredir fel un rhaglen ddiwygio a gaiff ei llywio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Perfformio a Diwygio.
- Bydd ein staff a'n rhanddeiliaid yn ymgysylltu â'r rhaglen.
- Mae cynllun gweithredu clir eisoes wedi'i ddatblygu, gan nodi cerrig milltir allweddol; caiff y cynllun ei newid yn gynllun rhaglen lawn erbyn mis Medi.
- Caiff dilyniant y broses weithredu ei benderfynu yn ofalus.
- Cynhelir archwiliad allanol o gynnydd ym mis Rhagfyr a bob blwyddyn ar ôl hynny.

60. Ein gweledigaeth ni yw Swyddfa Gartref a arweinir yn hyderus ac a reolir yn dda, sy'n cyflawni gwasanaethau o safon uchel drwy systemau a phrosesau cadarn, drwy bobl fedrus, ac sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd a chreu cymunedau mwy diogel. Rydym yn hyderus y byddwn, drwy gydweithio â'n rhanddeiliaid a staff, yn cyflawni'r ymrwymiadau diwygio hyn. Rydym yn benderfynol o lwyddo.

Atodiad:

Crynodeb o gerrig milltir y Cynllun Gweithredu Diwygio

Erbyn mis Medi 2006	Erbyn mis Rhagfyr 2006	Erbyn mis Ebrill 2007	Erbyn mis Ebrill 2008	Erbyn mis Ebrill 2010
• Rhaglen ar gyfer gweithredu'r cynllun diwygio ar waith • Y broses o ad-drefnu'r Bwrdd, gan gynnwys penodi Prif Weithredwr ar gyfer y Gwasanaeth Adnabod a Phasbortau, wedi'i chwblhau • Cyfarwyddwyr anweithredol newydd wedi'u nodi • 10 o'r 15 o newidiadau o ran arweinyddiaeth wedi'u cyflawni • Asesiad gallu ar lefel Cyfarwyddwr wedi'i gwblhau • Camau gweithredu wedi'u lansio er mwyn: – diwygio'r broses rheoli risg – gwella ansawdd data – gwella prosesau craidd • Adolygiad cychwynnol o'r prif raglenni a phrosiectau wedi'i gwblhau • Ymgynghoriad ar Gyrff Cyhoeddus Anadrannol wedi cychwyn	• Amlinelliad o swyddogaeth polisi strategol newydd y Swyddfa Gartref wedi'i gytuno • Cytuno ar 'gontract' newydd â Gweinidogion • Fersiwn drafft o'r fframwaith perfformio newydd a'r model gweithredu ar gyfer asiantaethau a'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol • Yr Uned Diwygio a Chyflawni wedi'i chynllunio • Newidiadau o ran arweinyddiaeth wedi'u cwblhau • Proses rheoli risg newydd ar waith • Y broses o gyflwyno'r rhaglen gwella prosesau yn mynd rhagddi • Strategaeth TG y Swyddfa Gartref ar waith • Adolygiad o Gyrff Cyhoeddus Anadrannol y Swyddfa Gartref yn mynd rhagddo • Cytuno ar fframwaith perfformio newydd ar gyfer y Gwasanaeth Prawf • Rhaglen gwerthoedd ar waith • Adolygu cynnydd	• Cynllun trefniadaeth newydd y Swyddfa Gartref wedi'i gytuno • Asiantaeth weithredol gysgodol y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd wedi'i sefydlu • Fframwaith perfformio ar gyfer y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol wedi'i gytuno a strwythur Pencadlys y Gwasanaeth yn weithredol • Yr Asiantaeth Gwella Plismona Genedlaethol yn weithredol • Fframwaith perfformio symlach ar gyfer yr heddlu ar waith • Asesiad galluoedd arwain wedi'i gwblhau a chamau gweithredu dilynol wedi dechrau. System bonws ddiwygiedig ar gyfer uwch staff gweithredol • Adolygiad o brif raglenni wedi'i gwblhau • Adolygiad o'r system gwybodaeth rheoli wedi'i gwblhau a chamau gweithredu wedi dechrau • Trosglwyddo i wasanaethau a rennir yn dechrau	• Y broses o ailstrwythuro'r Swyddfa Gartref wedi'i chwblhau • Swyddi yn y Pencadlys wedi lleihau 2,700 • Absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng • Lefelau perfformiad newydd ar gyfer pobl a chymhellion newydd ar waith • Gwaith achos a gweithgarwch gweithredol wedi symud allan o'r Pencadlys • Gwelliannau mesuradwy o ran: – rheoli risg – cywirdeb data – rheoli rhaglenni – TG – rheoli perfformiad • Adolygu cynnydd	• Rhaglen ddiwygio wedi'i chwblhau a'r amcanion wedi'u cyflawni • Canolfannau gwasanaethau a rennir yn gwbl weithredol • Mwy o ostyngiadau o ran niferoedd staff ac arbedion effeithlonrwydd o 3 y cant y flwyddyn wedi'u cyflawni

Cynhyrchwyd gan COI ar ran y Swyddfa Gartref, Gorffennaf 2006. Cyf: 275921